# Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol

# Learner progress and destinations in independent specialist colleges

## Cefndir

Mae colegau arbenigol annibynnol (CAAau) yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr o 16 oed sydd ag ystod o anawsterau ac anableddau dysgu.

Mae pedwar o'r chwe choleg arbenigol annibynnol yng Nghymru yn cynnig gofal preswyl ochr yn ochr â'u darpariaeth addysg.

Caiff lleoliadau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Nid oes proses ffurfiol o gyfeirio i goleg arbenigol annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd wedi nodi mai CAA yw'r llwybr y maent yn ei ffafrio ar gyfer eu plant lawer o flynyddoedd ynghynt, a byddant wedi gweithio gyda'u gweithiwr cymdeithasol dros gyfnod i gyflawni hyn.

## Background

Independent specialist colleges (ISCs) provide education for learners from 16 years of age who have a range of learning difficulties and disabilities.

Four of the six independent specialist colleges in Wales offer residential care alongside their education provision.

Learners' placements at independent specialist colleges are funded directly by the Welsh Government

There is no formal process of referral to an ISC. Most families have identified an ISC as the preferred pathway for their child many years earlier and will have worked with their social worker over a period of time to achieve this end.

## Prif ganfyddiadau

Mewn pedwar o'r chwe CAA, caiff asesiad cyn mynediad dysgwyr ei ddiffinio'n dda gyda nodau ac amcanion clir. Mae'r CAAau hyn yn rhestru'n glir y wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn lleoli'r dysgwr.  Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i wneud yn siŵr bod cyfleusterau addysg a gofal yn briodol.  Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw CAAau yn derbyn ystod lawn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn i'r dysgwr ddechrau.

Mae pedwar o'r CAAau yn annog dysgwyr i ymweld â'r CAA cyn dechrau eu lleoliad. Mewn un CAA, mae dysgwyr yn cynnal ymweliad tridiau tra byddant yn aros yn y llety preswyl.  Mae'r ymweliad hwn yn cyflawni dibenion gwerthfawr ar gyfer y darparwr ac fe gaiff y dysgwr ei asesu'n ffurfiol gan staff addysg a staff preswyl.

## Main findings

In four of the six ISCs, pre-entry assessment of learners is well defined with clear aims and objectives. These ISCs clearly list the information they require in advance of the learner's placement.  They use this information well to make sure that education and care facilities are appropriate. However, too often, ISCs do not receive the full range of information they need before the learner starts.

Four of the ISCs encourage learners to visit the ISC in advance of their placement. In one ISC, learners undertake a three-day visit while staying at the residential accommodation. This visit fulfils valuable purposes for the provider and the learner is informally assessed by education and residential staff.

# Prif ganfyddiadau

Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn defnyddio ystod eang o ddata i fesur cynnydd dysgwyr. Mae bron pob CAA yn defnyddio data i osod targedau ar gynlluniau dysgu unigol (CDUau). Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y CDUau, ar draws bron pob darparwr, yn cynnwys targedau ar gyfer camau bach o ddysgu na ffocws clir ar y gyrchfan a ddymunir gan y dysgwr.

Mae pedwar CAA yn gwneud cynnydd da o ran ehangu eu defnydd o ddata. Mae eu data yn mynd y tu hwnt i ennill cymwysterau a chyflawni unedau credyd erbyn hyn, i gynnwys medrau ehangach a chynnydd dysgwyr yn erbyn targedau CDU. Fodd bynnag, nid yw llawer o CAAau yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd staff ac arbenigwyr i bennu mannau cychwyn dysgwyr mewn meysydd fel cyfathrebu ac ymddygiad.

# Main findings

Most ISCs use a wide range of data to measure learner progress. Nearly all ISCs use data to set targets on individual learning plans (ILPs). However, a majority of ILPs, across nearly all providers, do not have targets for small steps of learning or a clear focus on the learner's desired destination.

Four ISCs are making good progress in expanding their use of data. Their data now goes beyond achievement of qualifications and units of credit to include broader skills and learner progress against ILP targets. However, many ISCs do not make sufficient use of staff expertise and specialists to establish learners' starting points in areas such as communication and behaviour.

## Prif ganfyddiadau

Mae'r colegau sy'n gosod targedau cadarn i ddysgwyr yn meddu ar ddata gwell ar gynnydd dysgwyr hefyd. Fodd bynnag, mewn dau CAA, nid yw adolygiadau'n ddigon trylwyr, ac mae'n anodd nodi neu fesur cynnydd dysgwyr. Ni all y CAAau hyn goladu digon o wybodaeth i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru chwaith.

Un o'r dulliau pwysicaf y mae CAAau yn ei ddefnyddio ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr a chipio data yw cynlluniau dysgu unigol (CDUau).

## Main findings

The colleges that set robust learner targets also have better data on learner progress. However, in two ISCs progress reviews are not robust enough and learner progress is difficult to identify or measure. These ISCs are also unable to collate enough information to meet Welsh Government requirements.

One of the most important methods ISCs use for measuring learner progress and capturing data is individual learning plans (ILPs).

# Prif ganfyddiadau

Mae'r CDUau mwyaf effeithiol:

- yn gosod cyfeiriad clir i'r dysgwr sy'n ei helpu i symud tuag ei ddyheadau ar gyfer y dyfodol
- yn cynnwys targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir
- yn cynnwys cyrchfan ffafriedig neu debygol y dysgwr
- yn cynllunio camau dysgu byr i'r dysgwr gyflawni canlyniad cadarnhaol
- yn rhoi ystyriaeth dda i ystod lawn y medrau y mae angen i'r dysgwr eu datblygu

# Main findings

The most effective ILPs:

- set a clear direction for the learner that helps them to move towards their future aspirations
- include short-term, medium-term and long-term targets
- include the learner's preferred or likely destination
- plan short steps of learning for the learner to achieve a positive outcome
- take good account of the full range of skills the learner needs to develop

## Prif ganfyddiadau

Mae mwyafrif o'r CAAau yn cynnig ystod eang o raglenni dysgu, gan gynnwys amaethyddiaeth, garddwriaeth, crefftau pren ac arlwyo. Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio rhaglenni dysgu sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Fodd bynnag, nid yw rhaglenni dysgu'n rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr na chyfleoedd cyflogaeth posibl yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, nid yw CAAau yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng nifer y cymwysterau y mae dysgwr yn eu dilyn a datblygiad ei fedrau cyffredinol. Mae llawer o CAAau yn dibynnu gormod ar gymwysterau a thystysgrifau dysgu fel ffordd o asesu a mesur cynnydd dysgwyr.

## Main findings

A majority of the ISCs offer a broad range of learning programmes including agriculture, horticulture, wood crafts and catering. Most ISCs plan programmes of learning that are tailored to meet the needs of individual learners. However, learning programmes do not take enough account of learners' desired destinations or possible future employment opportunities.

In general, ISCs do not strike the right balance between the number of qualifications a learner takes and their general skills development. Many ISCs rely too much on qualifications and certificates of learning as a means of assessing and measuring learner progress.

## Prif ganfyddiadau

Mae pob CAA yn nodi'r medrau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen ar ddysgwyr i ddatblygu a gosod targedau llythrennedd a rhifedd ar CDUau.  Fodd bynnag, mae rhai o'r targedau hyn yn rhy gyffredinol.  Mae hyn yn golygu eu bod yn anodd i'w cyflawni ac na ellir mesur cynnydd yn unol â nhw yn hawdd.  Mewn rhai colegau, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith mewn dosbarthiadau medrau.

Mae pob CAA yn cynnwys ffocws clir ar ddatblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd dysgwyr.  Fodd bynnag, er bod tystiolaeth anecdotaidd i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y meysydd hyn, nid yw CAAau yn gosod targedau, yn asesu cynnydd ac yn cofnodi tystiolaeth o'r dysgu hwn a allai eu helpu i arfarnu effeithiolrwydd eu gwaith a bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

## Main findings

All ISCs identify the literacy and numeracy skills learners need to develop and set literacy and numeracy targets on ILPs. However, a few of these targets are too general.  This means that they are difficult to achieve and progress against them cannot be measured easily.  In a few colleges, there is an over-reliance on worksheets in skills classes.

All ISCs have a clear focus on developing learners' independence and life skills. However, although there is anecdotal evidence to support learner progress in these areas, ISCs do not set targets, assess progress and record evidence of this learning that could help them evaluate the effectiveness of their work and meet Welsh Government requirements.

# Prif ganfyddiadau

Mae llawer o ddysgwyr ar draws pob CAA yn elwa ar gyfleoedd profiad gwaith. Mae'r rhain yn effeithiol o ran helpu dysgwyr i wella'u cyflogadwyedd, eu hunanhyder a'u hunan-barch. Fodd bynnag, nid yw'r broses i olrhain gwerth profiad gwaith wedi'i datblygu'n ddigonol, ac nid yw llawer o leoliadau gwaith yn ddigon penodol i gyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr.

Mae dysgwyr yn symud o CAAau i ystod o gyrchfannau sy'n cynnwys addysg bellach, addysg uwch neu gyflogaeth. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer pontio o goleg wedi'u seilio'n rhy aml ar yr hyn sydd ar gael yn hytrach nag ar ble byddai'r dysgwr yn dymuno bod.

# Main findings

Many learners across all ISCs benefit from work experience opportunities. These are effective in helping learners to improve their employability, self-confidence and self-esteem. However, tracking the value of work experience is underdeveloped and many work placements are not specific enough to the learners' desired destinations.

Learners move from ISCs to a range of destinations that include further education, higher education or employment. However, arrangements for transition out of college are based too often on what is available rather than where the learner would wish to be.

## Prif ganfyddiadau

Mewn dau CAA, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni eu dewis cyrchfan. Fodd bynnag, nid oes gan ryw hanner y dysgwyr mewn CAAau nodau cyrchfan cadarn pan fyddant yn dechrau eu cwrs. I leiafrif o ddysgwyr, mae oedi wrth ddod o hyd i leoliad cyrchfan addas. Mae cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid yn araf, ac mae oedi’n digwydd lle newidiwyd gweithiwr cymdeithasol neu ble mae dysgwyr o awdurdod lleol gwahanol i safle’r CAA.

## Main findings

In two ISCs, most learners achieve the destination of their choice. However, around a half of learners in ISCs do not have secure destination goals when they start their course. For a minority of learners, there is a delay in finding a suitable destination placement. Communication between stakeholders is slow and delays occur where there have been changes of social worker or where learners are from a different local authority to the site of the ISC.

# Argymhellion

**Dylai colegau arbenigol annibynnol:**

Wneud yn siŵr bod yr holl asesiadau cyn mynediad yn berthnasol i ystod lawn anghenion dysgwyr, gan gynnwys cyfathrebu ac ymddygiad

Gwneud yn siŵr bod pob CDU:

- yn cydnabod y gyrchfan a ddymunir gan ddysgwyr
- yn nodi'n fras dargedau mesuradwy tymor byr, tymor canolig a thymor hir ac yn amlinellu cynlluniau i gyflawni'r targedau hyn
- yn cael ei adolygu'n rheolaidd

# Recommendations

**Independent specialist colleges should:**

Make sure all pre-entry assessments are relevant to learners' full range of needs including communication and behaviour

Make sure all ILPs:

- recognise the learners' desired destination
- briefly identify short, medium and long-term measurable targets and set out plans to achieve these targets
- are regularly reviewed

## Argymhellion

Datblygu prosesau clir i osod targedau, ac asesu, olrhain, monitro ac arfarnu cynnydd dysgwyr mewn medrau annibyniaeth

Datblygu prosesau i fesur gwerth a deilliannau profiad gwaith

Lleihau'r ddibyniaeth ar daflenni gwaith generig i addysgu medrau llythrennedd a rhifedd

## Recommendations

Develop clear processes to set targets, and to assess, track, monitor and evaluate learner progress in independence skills

Develop processes to measure the value and outcomes of work experience

Reduce the reliance on generic worksheets to teach literacy and numeracy skills

# Argymhellion

**Dylai awdurdodau lleol:**

Gydlynu’r wybodaeth sy’n mynd gyda dysgwyr rhwng darparwyr ac ar gyfnodau pontio

Gwneud yn siŵr bod cynlluniau a phrosesau ar gyfer cyrchfannau dysgwyr y tu hwnt i’r CAA ar waith yn ddigon cynnar i gael canlyniad cadarnhaol a chyfnod pontio didrafferth

# Recommendations

**Local authorities should:**

Co-ordinate the information that travels with learners between providers and at transition points

Make sure that plans and processes for learner destinations beyond the ISC are in place early enough for there to be a positive outcome and a smooth transition

# Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

Adolygu'r wybodaeth y gofynnir amdani gan CAAau i wneud yn siŵr ei bod yn glir a phenodol ac yn cynnwys ffocws ar gynnydd dysgwyr a chyrchfan a ddymunir gan y dysgwr, yn ogystal ag ennill cymwysterau

# Recommendations

**The Welsh Government should:**

Review the information requested from ISCs to make sure that it is clear and specific and includes a focus on learner progress and the learner's desired destination, as well as achievement of qualifications

# Arfer orau

## Ymweliadau preswyl cyn mynediad yng Ngholeg Elidyr

Yng Ngholeg Elidyr, mae dysgwyr yn manteisio ar ymweliad sy'n para tridiau i alluogi'r coleg a'r dysgwr i bennu p'un a yw'r lleoliad yn ffafriol i ddatblygiad y dysgwr.

Mae'r pennaeth addysg yn cynllunio rhaglen ar gyfer y dysgwr am gyfnod yr ymweliad. Yn ystod yr ymweliad, mae'r coleg yn casglu ystod helaeth o wybodaeth am y dysgwr. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol iawn i asesu anghenion y dysgwr ac yn cymharu hyn â'r cyfleusterau a'r gofal y gallant eu cynnig.

Mae'r broses yn sicrhau dealltwriaeth gadarn a thrylwyr o'r dysgwr ac mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n mynychu Coleg Elidyr yn ymgynefino'n gyflym ac yn cael deilliannau llwyddiannus.

# Best practice

## Pre-entry residential visits in Coleg Elidyr

In Coleg Elidyr, learners take advantage of a three-day visit to allow both the college and the learner to establish whether the placement is conducive to the learner's development.

The head of education designs a programme for the learner for the duration of the visit. During the visit the college gathers an extensive range of information about the learner. Staff use this information very effectively to assess the needs of the learner and compare this to the facilities and care they can offer.

The process ensures a robust and thorough understanding of the learner and nearly all learners attending Coleg Elidyr settle quickly and have successful outcomes.

# Arfer orau

**Mae rhaglenni dysgu yng Ngholeg Plas Dwbl wedi'u cynllunio o amgylch y gyrchfan a ddymunir gan ddysgwyr**

Mae rheolwr taith myfyrwyr y coleg yn trafod nodau tymor hir y dysgwr gyda'r dysgwr a'r gyrchfan a ddymunir gyda'r dysgwr pan fydd yn dechrau yn y coleg. Caiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo i'r CDU ac mae athrawon yn gosod targedau tymor byr a fydd yn gamau dysgu bach tuag at y cyrchfannau a ddymunir.

Mae hyn yn golygu bod rhaglenni dysgu wedi'u hanelu'n glir a chadarn iawn at gynorthwyo'r dysgwr i gyflawni'r gyrchfan a ddymunir ganddo. Llwyddodd pawb a adawodd y coleg y llynedd i fynd ymlaen i'w cyrchfan ddymunedig, sef naill ai addysg bellach neu gyflogaeth.

# Best practice

**Learning programmes at Coleg Plas Dwbl are designed around the learners' desired destination**

The student journey manager discusses the learner's long term goals and desired destination with the learner when they first start at the college. This information is transferred to the ILP and teachers set short-term targets that will be small steps of learning towards the desired destinations.

This means that learning programmes are very clearly and securely aimed at supporting the learner to achieve their desired destinations. All college leavers last year progressed to their desired destination of either further education or employment.

# 10 cwestiwn i ddarparwyr

Pa mor effeithiol y mae asesiadau cyn mynediad yn cynnwys ystod lawn anghenion y dysgwyr, gan gynnwys ymddygiad a chyfathrebu?

Pa mor dda y mae CDUau dysgwyr:

- Yn cynnwys cyrchfan ddymunedig y dysgwyr?
- Yn nodi'n fras dargedau mesuradwy tymor byr, tymor canolig a thymor hir ac yn amlinellu cynlluniau i gyflawni'r targedau hyn?

Pa mor aml a pha mor effeithiol y caiff CDUau eu hadolygu?

Pa mor effeithiol yw eich prosesau i osod targedau, ac asesu, olrhain, monitro ac arfarnu cynnydd dysgwyr mewn medrau annibyniaeth?

Pa mor drylwyr yw prosesau i fesur gwerth a deilliannau profiad gwaith?

# 10 questions for providers

How effectively do pre-entry assessments include the full range of learners' needs including behaviour and communication?

How well do learners ILPs:

- Include the learners' desired destination?
- briefly identify short, medium and long-term measurable targets and set out plans to achieve these targets?

How often and how effectively are ILPs reviewed?

How effective are your processes to set targets, and to assess, track, monitor and evaluate learner progress in independence skills?

How robust are processes to measure the value and outcomes of work experience?

## 10 cwestiwn i ddarparwyr

I ba raddau y caiff taflenni gwaith eu defnyddio mewn addysgu?  Ai'r rhain yw'r adnodd gorau bob amser i hyrwyddo dysgu?

Pa mor berthnasol yw targedau llythrennedd a rhifedd? A ydynt yn ddigon clir i fesur cynnydd yn hawdd?

A yw'r cymwysterau y mae dysgwr yn eu hennill i gyd yn berthnasol a defnyddiol?

A yw trefniadau i ddysgwyr sy'n pontio o goleg bob amser yn cael eu cynllunio'n ddigon cynnar i sicrhau'r canlyniad gorau?

Pa mor dda y mae trefniadau ar gyfer casglu a choladu data yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol ar gyfer Llywodraeth Cymru?

## 10 questions for providers

To what extent are worksheets  used in teaching?  Are these always the best resource to promote learning?

How relevant are literacy and numeracy targets? Are they clear enough to measure progress easily?

Are the qualifications a learner achieves all relevant and useful?

Are arrangements for learners transition out of college always planned early enough to ensure the best outcome?

How well do arrangements for collecting and collating data provide useful and relevant information for Welsh Government?

# Cwestiynau...

# Questions…